Estyn

Medi 2021



# Gwaith ymgysylltu

## Crynodeb o alwadau ymgysylltu ac ymweliadau ag ysgolion arbennig annibynnol

Tymhorau'r gwanwyn a'r haf, 2021

Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r canfyddiadau o gyfarfodydd ymgysylltu o bell gydag uwch arweinwyr bron ym mhob un o’r 36 ysgol arbennig annibynnol rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2021, ac o ychydig iawn o ymweliadau ymgysylltu hefyd. Gwnaed llawer o newidiadau yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn, yn cynnwys bod ychydig o ddarparwyr o dan fesurau clo yn benodol i safle, yn unol â chyfarwyddyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymateb i glystyrau o achosion o COVID-19.

Fe wnaeth yr arweinwyr hynny a gymerodd ran mewn gweithgareddau ymgysylltu yn gynharach yn y gwanwyn rannu eu profiadau yn ystod cyfnod clo cenedlaethol. Mewn cyferbyniad, roedd yr arweinwyr hynny a gymerodd ran mewn gweithgareddau ymgysylltu yn ystod tymor yr haf yn myfyrio ar gyfnod pan oedd llai o gyfyngiadau.

Y prif ffocws ar gyfer pob trafodaeth, neu ymweliad, oedd sut mae ysgolion wedi parhau i gefnogi a hyrwyddo lles a dysgu disgyblion. Hefyd, fe wnaethom drafod materion arwain, yn cynnwys dysgu proffesiynol a pharatoi ar gyfer diwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae llawer o ysgolion arbennig annibynnol yn fach, ac mae disgyblion yn aml yn byw mewn cartrefi cysylltiedig i blant. Mae lleiafrif o’r ysgolion hyn yn addysgu disgyblion dydd neu ddisgyblion sy’n preswylio mewn cartrefi plant nad ydynt yn gysylltiedig â’r ysgol hefyd. Mae lleiafrif llai o’r holl ysgolion arbennig annibynnol yn addysgu disgyblion dydd yn unig, a’r ysgolion hyn yw’r grŵp mwyaf ond un o ddarparwyr ar gyfer disgyblion sy’n cael addysg heblaw yn yr ysgol ar ôl unedau cyfeirio disgyblion. Caiff bron pob un o’r lleoliadau mewn ysgolion arbennig annibynnol eu hariannu gan awdurdodau lleol yng Nghymru neu Loegr.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyd-destunau tymor y gwanwyn a’r haf ar gyfer ysgolion arbennig annibynnol** | **1** |
| **Lles** | **2** |
| **Addysgu a dysgu** | **5** |
| **Dysgu proffesiynol** | **7** |
| **Arweinyddiaeth** | **7** |
| **Diwygio ADY** | **9** |

## Cyd-destunau tymor y gwanwyn a'r haf ar gyfer ysgolion arbennig annibynnol

Oherwydd proffil disgyblion mewn ysgolion arbennig annibynnol, dywed llawer o ysgolion eu bod wedi aros ar agor trwy gydol y pandemig, ac y bu'n rhaid i ychydig o ysgolion gau am gyfnodau amser byr o ganlyniad i achosion lleol o COVID-19.

Dywedodd llawer o arweinwyr mewn ysgolion sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion dydd yn unig y bu'r cyfnod trosglwyddo o ddysgu rhithwir yn gymharol esmwyth yn ystod rhan gyntaf tymor y gwanwyn i ddysgu cyfunol ar ôl hynny. Er bod bron pob un o'r disgyblion yn y lleoliadau hyn wedi dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb erbyn diwedd tymor y gwanwyn, mae lleiafrif o ysgolion yn bwriadu parhau â dull dysgu cyfunol y tu hwnt i'r flwyddyn academaidd hon. Esboniodd arweinwyr mai'r rheswm am y dull hwn yw er mwyn aros mor hyblyg ag y bo modd at y dyfodol.

Ar ôl gwyliau'r Pasg, soniodd arweinwyr ysgolion sy'n addysgu disgyblion dydd yn unig eu bod wedi dychwelyd i'r drefn 'arferol'. Roedd bron pob un o'r disgyblion o'r ysgolion hyn yn cael addysg yn yr ysgol ar sail amser llawn ar yr adeg hon. Mae ychydig iawn o arweinwyr yr ysgolion hyn yn cadarnhau mai effaith arwyddocaol fach y mae'r pandemig wedi'i chael ar eu darpariaeth addysg.

Mae arweinwyr mewn lleiafrif o ysgolion sy'n cynnig addysg i ddisgyblion dydd a disgyblion o ddarpariaeth breswyl gysylltiedig yn cadarnhau y bu'n rhaid iddynt gau safle'r ysgol am gyfnod penodedig o ganlyniad i achosion o COVID-19 o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Dywed lleiafrif o'r arweinwyr ysgolion hyn fod yr achosion hyn o gau ysgolion wedi effeithio fwyaf ar ddisgyblion dydd, a oedd yn cael eu haddysg ar-lein neu drwy becynnau papur dysgu gartref yn ystod y cyfnodau clo hyn. Anfonodd ychydig iawn o'r ysgolion hyn eu staff addysg i gynorthwyo disgyblion i allu cael addysg yn eu cartrefi teuluol, a leihaodd effaith y cyfnodau clo ar gyfer y disgyblion hyn.

Dywed arweinwyr mewn mwyafrif o ysgolion sydd â disgyblion o ddarpariaeth breswyl gysylltiedig yn unig eu bod wedi aros ar agor trwy gydol y flwyddyn academaidd gyda'r tarfu lleiaf ar gyflwyno addysg. Yn yr ysgolion hyn, dywed arweinwyr eu bod wedi defnyddio strategaethau amrywiol i leihau'r risgiau a achosir gan COVID-19. Er enghraifft, roedd staff yn addysgu disgyblion ar y safle mewn sawl lleoliad preswyl, yn lleihau niferoedd y disgyblion ym mhob dosbarth, neu'n cyflwyno mynediad rhan-amser i'r ysgol. I leihau risg lledaenu haint, gwnaeth ychydig o ysgolion newidiadau i'w darpariaeth trwy gael gwared ar y cymorth arferol gan staff preswyl o fewn y lleoliad addysg. Dywedodd arweinwyr mewn ychydig iawn o'r lleoliadau hyn fod y dull hwn wedi gwella ymgysylltiad disgyblion â dysgu, ac wedi helpu pennu ffiniau cliriach rhwng yr ysgol a'r cartref.

Mewn ysgolion sydd â disgyblion o gartrefi preswyl cysylltiedig, dywed arweinwyr fod presenoldeb wedi gwella drwyddi draw ar draws y flwyddyn academaidd, a bod disgyblion wedi bod yn falch i ddychwelyd i'r ysgol, ar y cyfan. Ar draws pob ysgol, dywed arweinwyr nad yw ychydig iawn o ddisgyblion wedi dychwelyd i'r ysgol. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i orbryder disgyblion neu oherwydd eu bod yn gwarchod. Mae ychydig iawn o arweinwyr ysgolion yn disgrifio eu bod yn defnyddio dysgu ar-

lein neu ddysgu cyfunol o hyd i gynnig addysg i'r rhai nad ydynt yn gallu mynd i'r ysgol, neu i gyfyngu ar nifer y disgyblion sydd ar y safle ar unrhyw adeg benodol.

Dywed mwyafrif o arweinwyr fod nifer y disgyblion ar eu cofrestr ysgol naill ai wedi aros yr un fath neu wedi cynyddu yn 2020-2021. Mae'r ysgolion hyn wedi parhau i dderbyn disgyblion newydd trwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae'r arweinwyr hynny sy'n sôn am gynnydd yn y galw am leoliadau yn disgrifio sut gallai hyn fod o ganlyniad i'r straen cynyddol ar deuluoedd a gwasanaethau o ganlyniad i'r pandemig. Mae enghreifftiau a ddyfynnwyd yn cynnwys sut mae'r ynysu yn ystod cyfnodau clo wedi achosi problemau cymdeithasol ac emosiynol i ddisgyblion sydd, mewn ychydig iawn o achosion, wedi arwain at gynnwys yr heddlu, ac angen am leoliad mwy arbenigol.

## Lles

At ei gilydd, dywed arweinwyr fod lles disgyblion a staff wedi gwella wrth i'r flwyddyn academaidd fynd rhagddi, ac wrth leihau cyfyngiadau. Yn gyffredinol, mae'r ysgolion hynny a arhosodd ar agor trwy gydol y pandemig yn disgrifio'r modd y mae disgyblion a staff wedi datblygu gwydnwch gwell a setiau medrau newydd i fodloni'r heriau niferus maen nhw wedi eu hwynebu. Fodd bynnag, dywed arweinwyr o hyd fod disgyblion a staff yn flinedig ar ôl cyfnod hir o her a newid parhaus.

### Lles disgyblion

Nododd llawer o arweinwyr o ysgolion sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion dydd effaith negyddol y pandemig ar fedrau cymdeithasol a lles disgyblion. Er enghraifft, fe wnaethant briodoli dirywiad yn lles disgyblion i ddiffyg ymgysylltu â'u cyfoedion yn ystod cyfnodau clo. Hefyd, dywed sawl arweinydd fod ychydig iawn o ddisgyblion wedi llithro'n ôl yn eu hymddygiad yn ystod y cyfnod hwn. I ymateb i hynny, cadarnhaodd arweinwyr eu bod wedi cryfhau cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol i fonitro a chefnogi lles disgyblion yn well, a arweiniodd at berthnasoedd gweithio agosach gyda rhieni. Mae arweinwyr yn cadarnhau bod rhieni, at ei gilydd, wedi datblygu dealltwriaeth well o addysg eu plentyn yn ystod y cyfnod hwn.

Mewn ychydig iawn o ysgolion yn unig sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig, nododd arweinwyr fod effaith negyddol ar ddatblygiad medrau cymdeithasol disgyblion o ganlyniad i'r pandemig. Roeddent yn ystyried bod hyn yn gyffredinol oherwydd bod disgyblion wedi parhau i ryngweithio â'u cyfoedion. Fodd bynnag, cadarnhaodd lleiafrif o arweinwyr mewn ysgolion â darpariaeth breswyl gysylltiedig effaith negyddol cyswllt cyfyngedig â theuluoedd ar y disgyblion hynny mewn gofal preswyl. Dywedant y bu hyn yn amlwg iawn ar ôl cyfnod y Nadolig, ac mai tymor y gwanwyn oedd yr anoddaf. Hefyd, dywedodd arweinwyr mewn ychydig iawn o'r ysgolion hyn fod lefelau gorbryder ychydig o ddisgyblion hŷn wedi codi gan nad oedd cynllunio ar gyfer y cyfnod pontio pan fyddant yn gadael yr ysgol bob amser yn galluogi mynediad at leoliadau newydd. I'r gwrthwyneb, nododd lleiafrif o arweinwyr y bu gwelliant yn ymddygiad disgyblion, ac roeddent yn priodoli hyn yn bennaf i ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr â'r ysgol gan arwain at amgylchedd dysgu tawelach.

Yn ystod tymor yr haf, dywed arweinwyr mewn tua hanner yr holl ysgolion fod cyfraddau presenoldeb yn ôl i'r arferol, neu wedi gwella, a bod disgyblion yn falch ar y cyfan eu bod wedi dychwelyd i'r ysgol. Mae arweinwyr mewn ychydig o ysgolion yn disgrifio cyfraddau presenoldeb fel 'eithriadol o dda', gydag un arweinydd yn dweud 'mae'n well nag a fu erioed'. Dywed ychydig iawn o arweinwyr ysgolion fod presenoldeb yn gwella o hyd, ond mewn ychydig iawn o achosion, nid yw disgyblion yn mynychu'r ysgol o hyd, yn bennaf am eu bod yn cael eu gwarchod neu oherwydd problemau gorbryder.

Er bod arweinwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion yn dweud y bu llai o bryderon ynghylch diogelu nag arfer ar y cyfan yn ystod y cyfnod hwn, ar gyfer tymor y gwanwyn, nodwyd cynnydd gan lawer o ysgolion sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion dydd yn unig. Pan oedd cynnydd yn digwydd, roedd arweinwyr yn aml yn priodoli hyn i gyd-destunau lle dywedodd rhieni eu bod wedi ymlâdd yn sgil cefnogi dysgu o bell a rheoli ymddygiad heriol eu plentyn, ac fe gafodd llawer o wasanaethau cymorth arbenigol eu hatal neu'u symud ar-lein ar yr adeg hon.

## Darpariaeth therapiwtig

Dywed arweinwyr yn yr ysgolion hynny sy'n cefnogi disgyblion dydd nad yw'r disgyblion hyn i raddau helaeth wedi cael mynediad cyson at ddarpariaeth therapiwtig trwy gydol y pandemig. Yn nodedig, arweinwyr o'r ysgolion hyn sydd wedi sôn am yr effaith negyddol fwyaf ar ddatblygiad medrau cymdeithasol disgyblion a nifer y pryderon ynghylch diogelu. Wrth ymateb i'r sefyllfa hon, dywed llawer o arweinwyr eu bod wedi cyflwyno mwy o ddarpariaeth therapiwtig yn yr ysgol i gefnogi disgyblion yn ystod y cyfnod hwn, sy'n cynnwys:

- cynyddu amser cylch
- cyfnodau integredig o dawelwch yn dilyn egwylion
- datblygu 'dewislen synhwyraidd' o weithgareddau i gefnogi hunanreoleiddio
- cyflwyno bocsio digyswllt therapiwtig
- mireinio sesiynau anogaeth
- datblygu ystafelloedd therapi yn yr ysgol

Ar draws y rhan fwyaf o ysgolion, mae arweinwyr yn cadarnhau bod newidiadau wedi cael eu gwneud i ddarpariaeth therapi i gynorthwyo disgyblion â'r heriau a gafwyd y llynedd. I lawer o'r ysgolion hyn, mae ffocws ar les ac ymyrraeth therapiwtig yn rhan o'u lles a'u cynnig cwricwlwm arferol i ddiwallu anghenion penodol eu disgyblion. I'r ysgolion hynny sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig, dywed mwyafrif o arweinwyr fod gwasanaethau therapiwtig wedi parhau yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Dywedodd ychydig iawn o'r arweinwyr hyn y tarfwyd ar y ddarpariaeth hon yn ystod achosion o COVID-19. Yn ystod tymor y gwanwyn, dywedodd arweinwyr fod llawer o therapi yn digwydd ar-lein, tra cadarnhaodd llawer o arweinwyr a oedd yn adrodd yn ystod tymor yr haf eu bod wedi dychwelyd i therapi wyneb yn wyneb.

## Lles staff

Dywed arweinwyr y bu ffocws cryfach o lawer trwy gydol y flwyddyn academaidd hon ar les staff, yn ogystal â lles disgyblion. Dywed arweinwyr fod ystod eang o systemau cymorth i helpu lles staff, yn cynnwys:

- cwnsela
- cwisiau staff ar-lein neu sesiynau dal i fyny ar-lein
- dosbarthu talebau rhodd
- amser gweddïo gyda chaplaniaid ysgol
- arolygon lles staff a chamau dilynol
- coffi gyda'r pennaeth
- cynyddu gweithio hyblyg

Mae ychydig o arweinwyr yn nodi bod cyfle i gael profion a brechlynnau wedi cael effaith gadarnhaol ar les staff. Mae arweinwyr o ychydig iawn o ysgolion yn nodi bod oedi o ran cael brechiadau a rheoli gorbryder staff wedi bod yn heriol hefyd. Dywed ychydig iawn o arweinwyr ysgol fod eu perchnogion yn cyflwyno polisi i wneud brechlynnau COVID-19 yn orfodol ar gyfer pob aelod o staff. Ar gyfer arweinwyr yn y lleoliadau hyn, mae'r dull hwn wedi cael effaith negyddol ar forâl staff.

Mae llawer o arweinwyr yn rhoi sylwadau ar yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar faich gwaith athrawon. Dywedodd un arweinydd fod 'gofyn i'w staff weithio ddwywaith yn galetach' o ganlyniad i newidiadau parhaus, naill ai i fodloni gofynion canllawiau'r llywodraeth, neu yn sgil achosion o COVID-19.

**Cymorth i rieni**

**Catch 22**

Yn yr ysgol ddydd hon ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, mae staff wedi parhau i gryfhau ymgysylltiad â rhieni a theuluoedd trwy gyflwyno sesiynau i rieni y tu allan i oriau ysgol. Caiff rhieni gyfle i ddod i'r ysgol gyda'u plant i drafod unrhyw bryderon a allai fod ganddynt, ac mae staff yn rhannu'r strategaethau y mae'r ysgol yn eu defnyddio i gefnogi eu plentyn. Dywed y pennaeth nad oes ffocws academaidd i'r cyfarfodydd hyn fel arfer, ond yn hytrach ddulliau rheoli ymddygiad. Cadarnhaodd y pennaeth fod yr ysgol yn monitro effaith y dull hwn o ran ymgysylltiad gwell disgyblion â dysgu. Er enghraifft, mae presenoldeb un disgybl wedi cynyddu'n sylweddol o awr y dydd i ddiwrnodau llawn bron ers yr ymgysylltiad gwell rhwng rhieni a'r ysgol a ddarperir trwy'r sesiynau hyn.

Yn y lleoliadau hynny sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig, dywed arweinwyr yn gyffredinol fod perthnasoedd gweithio gwell ar draws y timau addysgol a phreswyl. Mae hyn yn cynnwys perthnasoedd a deialog gryfach, a pharhad gwell ar gyfer disgyblion. Mae arweinwyr o ysgolion sydd â darpariaeth ddydd a darpariaeth breswyl gysylltiedig yn nodi bod ychydig iawn o ddisgyblion wedi cael trafferth ymgysylltu o'r newydd ag addysg yn dilyn tarfu ar arferion, neu am fod angen cael addysg mewn gwahanol leoliadau.

## Addysgu a dysgu

Mae bron pob arweinydd yn disgrifio sut y gwnaethant addasu trefniadau gweithredol yr ysgol ar gyfer addysgu a dysgu i liniaru yn erbyn risg haint o COVID-19. Dywed arweinwyr eu bod yn addasu'r rhain yn barhaus i ystyried newid mewn amgylchiadau. Bron ym mhob achos, mae arweinwyr wedi ailffurfweddu gofod addysgu yn yr ysgol i leihau niferoedd ym mhob dosbarth ac uchafu cadw pellter cymdeithasol. Mae arweinwyr mewn ychydig iawn o ysgolion yn cadarnhau bod grwpiau addysgu wedi newid i leihau effaith achosion o COVID-19 i'r eithaf.

### Newidiadau i ddarpariaeth y cwricwlwm

Ar y cyfan, mae arweinwyr yn sôn yn ffafriol am wella eu defnydd o ofod awyr agored i gefnogi lles a dysgu disgyblion, a bodloni gofynion rheoli heintiau hefyd. Dywed tua hanner yr ysgolion sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig, ac ychydig o ysgolion sydd â darpariaeth ddydd yn unig, eu bod yn dibynnu'n fwy ar addysg awyr agored neu'n datblygu eu darpariaeth bresennol ymhellach. Mae'r enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys gweithgareddau garddio, gofal anifeiliaid, byw yn y gwyllt, gweithgareddau chwaraeon, gweithgareddau galwedigaethol, crochenwaith, adeiladu, a defnyddio gofodau ymlacio yn yr awyr agored.

I ddiwallu anghenion llawer o ddisgyblion a osodwyd mewn ysgolion arbennig annibynnol, mae mynediad cymunedol yn aml yn rhan graidd o'r cynnig cwricwlwm. Fodd bynnag, mae arweinwyr mewn tua hanner yr holl ysgolion arbennig annibynnol yn sôn am effaith negyddol cyfyngiadau'r pandemig rhag cael mynediad cymunedol a darpariaeth oddi ar y safle. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y galwadau ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod tymor yr haf.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae ychydig iawn o ddarparwyr wedi parhau i gynnig lleoliadau profiad gwaith i'r holl ddisgyblion. Hefyd, maent wedi ymestyn eu cynnig cwricwlwm, wedi dod o hyd i interniaethau, neu wedi darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer medrau bywyd. Yn ystod tymor yr haf, dywed ychydig iawn o arweinwyr fod y cyfyngiadau hyn yn dechrau codi erbyn hyn, a bod mwy o fynediad at y gymuned bellach ar gael i ddisgyblion.

**Addysg a menter awyr agored**

**Marlowe St David's**

Yn yr ysgol hon ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anhwylder y sbectrwm awtistiaeth, dywed arweinwyr fod disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod o brosiectau cymunedol. Ar gyfer un o'r prosiectau hyn, mae disgyblion wedi bod yn codi arian i gael eu twnnel polythen eu hunain ar safle'r ysgol. Tyfodd disgyblion eu llysiau eu hunain i'w gwerthu yn y siop gymunedol leol, sy'n gysylltiedig â chyrsiau dysgu achrededig sydd gan yr ysgol ar waith. Mae disgyblion eisoes yn gweithio gyda'r siop gymunedol leol, a chrëwyd y datblygiad ysgol hwn o ganlyniad i geisiadau gan ddisgyblion.

Dywed lleiafrif o arweinwyr eu bod yn parhau i fyfyrio ar effeithiolrwydd eu darpariaeth cwricwlwm trwy gydol y pandemig. Er nad yw newidiadau'r Cwricwlwm i Gymru yn orfodol ar gyfer ysgolion arbennig annibynnol, dywed ychydig o arweinwyr eu bod wedi diwygio eu cwricwlwm i baratoi ar gyfer hyn. Dywed yr arweinwyr hyn fod y Cwricwlwm i Gymru yn gweddu i lawer o'u darpariaeth bresennol, a bod yr adnoddau a rennir ar gyfer y diwygiadau hyn yn helpu â chynllunio athrawon.

Dywed ychydig o arweinwyr ysgolion eu bod wedi buddsoddi mewn offer technoleg gwybodaeth (TG) a meddalwedd newydd i helpu â pharhad yr addysgu a'r dysgu trwy gydol y pandemig. Prynodd lleiafrif o ysgolion liniadur ar gyfer pob disgybl, er mwyn iddynt allu cael mynediad at ddysgu trwy gydol y cyfnodau clo.

Ar y cyfan, mae arweinwyr yn cadarnhau eu bod wedi mireinio dulliau asesu a ddefnyddir yn eu lleoliad. Mae lleiafrif o ysgolion yn parhau â dulliau asesu sefydledig a ddefnyddiwyd cyn y pandemig. Mae ychydig iawn o arweinwyr wedi newid eu dulliau asesu, a dywed rhai ohonynt fod angen cryfhau'r drefn i asesu lles ac anghenion emosiynol disgyblion, yn ogystal â chyflawniad academaidd.

Mae arweinwyr ysgolion sy'n cynnig cymwysterau TGAU yn rhannu pryderon am y broses arholi yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Mae arweinwyr yn teimlo y bu diffyg arweiniad amserol a rhannu gwybodaeth ynghylch arholiadau. Yn ychwanegol, mae ychydig iawn o arweinwyr yn disgrifio pryderon ynglŷn â phob aelod o staff yn gallu asesu gwaith TGAU yn gywir yn y ffordd ofynnol, gydag un ohonynt yn dweud mai graddau a asesir gan ganolfannau yw'r "her fwyaf i'w hysgol ar hyn o bryd".

## Paratoi ar gyfer pontio

Rhannodd ychydig o arweinwyr bryderon am heriau pontio disgyblion yn ystod y cyfnod hwn. Mae bron pob un o'r arweinwyr hyn yn sôn am rwystredigaethau ynglŷn â dod o hyd i leoliadau yn y dyfodol ar gyfer disgyblion sy'n gadael eu lleoliad. Mae ychydig iawn ohonynt yn nodi anhawster â phontio arfaethedig i addysg bellach. Dywed arweinwyr mewn ychydig o ysgolion y bu effaith sylweddol ar ddatblygu medrau disgyblion a'u parodrwydd ar gyfer trosglwyddo i fywyd oedolyn. Dywed arweinwyr y bydd dysgwyr yn llai parod ar gyfer symud i leoliadau yn y dyfodol o ganlyniad i effaith y pandemig ar addysg, mynediad cymunedol a chyfleoedd pontio. Mae ychydig iawn o arweinwyr yn nodi bod hyn wedi cynyddu gorbryder sawl disgybl hefyd.

Hefyd, dywed ychydig iawn o ysgolion a barhaodd i dderbyn lleoliadau newydd fod heriau wrth drosglwyddo disgyblion newydd i wasanaeth. Hefyd, rhannodd un arweinydd rwystredigaethau am amseriad cyfnodau pontio, ac roedd o'r farn fod yr amseriad yn aml wedi'i seilio ar gyllid yn hytrach na pharodrwydd disgyblion. Disgrifiont faint o waith pontio sydd y tu hwnt i reolaeth yr ysgolion a'u bod wedi eu cyfyngu o ran sut gallant baratoi a chefnogi disgyblion yn briodol.

## Dysgu proffesiynol

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn teimlo'n gadarnhaol na tharfodd y pandemig ar fynediad at ddysgu proffesiynol. Maent yn sôn am amrywiaeth eang o destunau hyfforddi, gyda'r cyfrannau uchaf ar arfer sy'n ystyriol o drawma, ffoneg, defnyddio platfformau cyflwyno addysg ar-lein a diwallu anghenion disgyblion unigol. Myfyriodd un arweinydd ar allu gwell staff i ddiwallu arddulliau dysgu unigol disgyblion o ganlyniad i newidiadau a wnaed i gyflwyno'r cwricwlwm yn ystod cyfnodau clo. Mae dysgu proffesiynol yr ysgol yn adlewyrchu ac yn cefnogi'r gwelliannau hyn. Dywed arweinwyr mewn ychydig iawn o ysgolion eu bod yn darparu hyfforddiant ar ddiwygiadau ADY sydd ar fin digwydd.

**Cymorth i rieni**

**Ysgol Headlands**

Mae'r ysgol hon yn darparu lleoliadau dydd neu leoliadau preswyl ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol, ac ymddygiadol ac anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth. Mae'r ysgol hon yn canolbwyntio ar gefnogi teuluoedd yn ogystal â staff trwy hyfforddiant parhaus. Dywed y pennaeth fod pob un o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant wedi'i anelu at gynorthwyo'r rhai ag anawsterau ymlyniad neu brofiad o drawma, ond mae'r ysgol wedi ymestyn hyn i ddatblygu cwrs tebyg ar gyfer teuluoedd. Roedd y dull hwn yn cynnwys aelodau o'r staff addysgu yn parhau â'u dysgu dros hanner tymor Chwefror a gwyliau'r Pasg. Mae'r ysgol yn paratoi dau gwrs peilot i rieni, sy'n canolbwyntio i ddechrau ar ofalwyr maeth a mabwysiadol.

## Arweinyddiaeth

At ei gilydd, dywed arweinwyr fod ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid allanol wedi gwella o ganlyniad i gyflwyno cyfarfodydd ar-lein, yn ogystal â gwelliannau mewn effeithlonrwydd ac ymgysylltu â rhieni. Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn cadarnhau eu bwriad i barhau â'r model hwn o gynnal cyfarfodydd yn y dyfodol o ganlyniad i'w effaith gadarnhaol. Mae ychydig iawn o arweinwyr yn nodi bod y model hwn yn gwneud cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn heriol. Ar draws yr ysgolion y cysylltwyd â nhw, mae ychydig ohonynt yn parhau i ddefnyddio platfformau ar-lein ar gyfer cyfarfodydd staff rheolaidd.

Mae ychydig iawn o arweinwyr yn nodi eu bod wedi teimlo bod angen iddynt newid eu harddull arwain yn ystod y pandemig i gefnogi eu tîm staff i deimlo'n fwy sicr a hyderus.

Yn gyffredinol, dywedodd arweinwyr y bu aelodaeth o sefydliadau neu gymunedau proffesiynol ehangach yn fuddiol ar gyfer deall arweiniad a gwneud newidiadau priodol.

**Darparu offer TG**

**The Branas School**

Mae'r ysgol hon yn darparu addysg a therapi arbenigol ar gyfer bechgyn sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol, ac ymddygiadol cymhleth. I ddechrau, roedd arweinwyr yn ei chael yn heriol iawn sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad at eu dysgu yn ddiogel ar-lein. Yn ystod cyfnodau clo blaenorol, nid oedd yr ysgol wedi darparu dysgu ar-lein o ganlyniad i gyfyngiadau ar fynediad i'r rhyngrwyd o fewn y lleoliad preswyl. Roedd hyn o ganlyniad i bolisi sydd â'r nod o leihau mynediad ar-lein ar gyfer preswylwyr. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, darparodd yr ysgol gyfrifiaduron personol ar gyfer y disgyblion, a phrynodd hybiau symudol ar gyfer pob cartref. Gan fod pob un o'r disgyblion wedi dychwelyd i weithgareddau ar y safle amser llawn erbyn hyn, mae'n galluogi'r disgyblion i gael mynediad wedi'i fonitro at y rhyngrwyd i gwblhau eu gwaith cartref. Mae'r ysgol yn parhau i fonitro'r safleoedd a'r chwiliadau a wneir gan y disgyblion yn drylwyr. Mae lefel y diogelwch wrth fonitro gweithgarwch ar y rhyngrwyd yn galluogi'r pennaeth i gael hysbysiad os bydd disgybl yn ceisio cael mynediad at ddeunydd amhriodol; bryd hynny, rhoddir y disgybl mewn 'blwch cosb', a chaiff ei gyfrif ei rewi. Ystyrir pob disgybl yn unigol wrth osod lefelau hysbysiad a geiriau allweddol a allai gael eu rhoi mewn peiriannau chwilio ar y rhyngrwyd.

Mae ychydig o arweinwyr o ysgolion gyda lleoliadau preswyl cysylltiedig yn cadarnhau bod eu profiadau o gyfathrebu â sawl cynrychiolydd yr awdurdod lleol yn ystod y cyfnod hwn wedi bod yn anghyson. Dywed yr arweinwyr hyn fod diffyg cymorth ar gyfer materion allweddol, fel pontio neu gyswllt â theuluoedd. Yn ychwanegol, dywed yr arweinwyr hyn y bu'n heriol cysylltu â chynrychiolwyr yr awdurdod lleol yn ystod y cyfnod hwn i drafod eu pryderon. Hefyd, dywed arweinwyr mai ychydig iawn o gyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng disgyblion, staff a gweithwyr cymdeithasol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn academaidd hon o ganlyniad i'r cyfyngiadau ar waith.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr wedi gwneud newidiadau i drefniadau sicrhau ansawdd arferol yr ysgol, fel y cylch arsylwi gwersi. Dywed arweinwyr mewn ychydig o ysgolion nad ydynt wedi cael unrhyw ddulliau ffurfiol o werthuso addysgu a dysgu, tra bod cyfran lai yn dweud eu bod wedi parhau â'u cylch arsylwi gwersi arferol gyda dulliau amrywiol o fewn gwahanol sectorau o'u hysgol. Er enghraifft, dywed rhai arweinwyr eu bod yn cwblhau arsylwadau gwersi wyneb yn wyneb, tra bod arweinwyr eraill yn arsylwi dysgu ar-lein neu'n cwblhau arsylwadau gwersi trwy ddefnyddio TG i arsylwi dysgu wyneb yn wyneb heb fynd i mewn i'r ystafell ddosbarth. Yn gyffredinol, dywed arweinwyr eu bod wedi parhau â chyfarfodydd arfarnu a datblygiad proffesiynol staff trwy gydol y flwyddyn, sydd yn aml wedi cael eu defnyddio i gynorthwyo staff yn ystod cyfnod heriol iawn.

Mae ychydig iawn o arweinwyr yn mynegi pryder y bu'n anodd mynd i'r afael ag argymhellion o arolygiadau blaenorol Estyn yn sgil y cyfyngiadau. Er enghraifft, gwelodd ychydig iawn o arweinwyr ysgol nad oedd modd cysylltu â darparwyr eraill i rannu arfer orau o ganlyniad i gyfyngiadau a heriau yn ystod y cyfnod hwn.

**Hyfforddiant cymorth ymddygiad**

**Canolfan Addysg Gwenllian**

Mae'r ysgol hon ar gyfer disgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistiaeth wedi datblygu ei darpariaeth arfarnu a datblygiad proffesiynol fel bod y ddwy broses hyn yn ymgysylltu'n well â disgwyliadau, amcanion a gofynion yr ysgol. Bellach, mae pob aelod o staff yr ysgol yn dilyn cwrs hyfforddi 'Technegydd Ymddygiadol Cofrestredig'. Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, mae dadansoddwr ymddygiad yr ysgol yn darparu goruchwyliaeth barhaus i staff. Mae'r dull hwn yn cynnwys hyfforddiant a chymorth uniongyrchol i staff o ran disgyblion penodol, ac yn monitro eu perfformiad yn barhaus. Gwneir y monitro yn unol ag offeryn asesu sy'n benodol i dechnegwyr ymddygiadol, ac mae adborth a chymorth uniongyrchol yn gysylltiedig â hyn. Mae gan staff dargedau sydd wedi eu personoli i gefnogi eu datblygiad proffesiynol yn ogystal â meysydd blaenoriaeth sy'n cael eu hamlygu trwy broses hunanwerthuso'r ysgol. Mae uwch reolwyr yn gallu cael gwybodaeth allweddol i werthuso perfformiad staff, a ystyrir yn ystod arfarniadau staff.

Mae arweinwyr yn amrywio'r modd y maent yn disgrifio eu dull cynllunio tymor hir yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft, mae'r rhai sy'n datgan bod eu hysgol yn syml yn 'ceisio dod i ben â'r sefyllfa' eleni, a'r rhai sy'n parhau i gael ymagwedd strategol at arweinyddiaeth a chynllunio gwelliant yr ysgol. Yn ôl un pennaeth sy'n dweud iddynt ddychwelyd at ddull strategol yn nhymor yr haf, ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl gan fod angen parhaus i ddarllen arweiniad newydd a gwneud newidiadau yn unol â hynny. Fodd bynnag, ar y cyfan, dywed arweinwyr fod eu hymateb wedi cryfhau dros gyfnod, gyda'u hysgolion yn dangos hyder a gwydnwch cynyddol tuag at y newidiadau a'r gofynion parhaus dros y 15 mis diwethaf.

## Ymateb i arweiniad

Er bod arweinwyr yn gyffredinol wedi gweld yr arweiniad cenedlaethol yn ddefnyddiol yn ystod y pandemig, dywed ychydig iawn ohonynt fod cael llawer o arweiniad lleol a chenedlaethol newydd neu ddiwygiedig trwy gydol y cyfnod hwn wedi bod yn heriol. Mae hyn yn arbennig o wir lle ceir lleoliadau gan ysgolion o fwy nag un awdurdod lleol o Gymru a Lloegr. Teimlai'r arweinwyr hyn fod angen i'w dull fod yn fwy ymatebol a llai strategol o ganlyniad i newidiadau parhaus a'r angen i ystyried llawer o wybodaeth o ffynonellau amrywiol. Hefyd, mynegodd ychydig iawn o arweinwyr rwystredigaeth nad oedd yr arweiniad yn ystyried eu lleoliadau yn ddigon da. Mewn achosion prin iawn, dywed arweinwyr eu bod wedi cael cymorth amrywiol gan awdurdodau lleol, gydag anghysondebau o ran ymgysylltiad â chyfarfodydd gorfodol a'r cymorth clinigol a ddarperir.

Dywed arweinwyr fod mesurau iechyd a diogelwch amrywiol yn cael eu defnyddio yn eu lleoliadau, yn dibynnu ar eu hasesiadau risg safle unigol. Mae llawer o arweinwyr yn cadarnhau y gwnaethant wahanu gwahanol ddosbarthiadau neu grwpiau preswyl yn 'swigod' i leihau risg achosion o COVID-19, a lleihau eu heffaith bosibl. Dywed ychydig o arweinwyr ysgolion eu bod yn defnyddio profion llif unffordd, cyfarpar diogelu personol (PPE) a gorchuddion wyneb ar gyfer staff. Hefyd, dywed ychydig iawn o arweinwyr eu bod yn defnyddio dyfeisiau glanhau gwrthfacterol â stêm, a dywed llawer ohonynt fod ganddynt brotocolau llym ar gyfer golchi dwylo. Ar y

cyfan, mae arweinwyr yn nodi y glynodd disgyblion at ganllawiau cadw pellter cymdeithasol a rheoli heintiau yn briodol. Fodd bynnag, dywed ychydig iawn o arweinwyr fod anallu i ddilyn y canllawiau hyn yn atal ychydig iawn o ddisgyblion rhag dychwelyd i'r ysgol.

## Diwygiadau ADY

Er bod arweinwyr yn dangos ymwybyddiaeth o'r diwygiadau ADY sydd ar fin digwydd, megis dechrau deall y goblygiadau llawn ar gyfer eu cyd-destun y maen nhw ar y cyfan, i raddau helaeth. Ychydig iawn o arweinwyr yn unig sy'n teimlo'n hyderus ac yn barod ar gyfer y newidiadau hyn, ac mae ychydig iawn o ysgolion wedi trefnu hyfforddiant i gynorthwyo staff i ddeall y diwygiadau hyn. Yn gyffredinol, mae dryswch ymhlith arweinwyr ynglŷn â sut bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ysgolion arbennig annibynnol. Er enghraifft, mae ychydig iawn o arweinwyr ysgolion yn teimlo na fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar eu lleoliad o gwbl, gan mai dim ond disgyblion o Loegr sydd ganddynt. Dywed mwyafrif o arweinwyr eu bod yn aros am ragor o gymorth neu arweiniad gan Lywodraeth Cymru, ond nad ydynt yn glir am unrhyw gymorth pellach, er enghraifft gan yr arweinydd gweddnewid rhanbarthol neu eu hawdurdodau lleol lleoli yng Nghymru.